Hawdd ei Ddeall

# Gwneud llywodraeth leol yn gryfach

## Dewisiadau ar gyfer cynghorau mwy a chynghorau cryfach

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Fersiwn hawdd ei ddeall o **'Cryfhau llywodraeth leol: Cyflawni dros ein Pobl.'**

Ebrill 2018

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu **hysgrifennu mewn glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau'n cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ysgrifennu mewn glas cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn glas cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl mewn rhestr o **eiriau anodd** ar dudalen 45.

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni' mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.

I gael mwy o gopïau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn, cysylltwch â:



Cryfhau Llywodraeth Leol,
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ




E-bost: cryfhaullywleol@gov.wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cynnwys


**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon........2**

**Am beth mae hyn yn sôn?........4**

**Pam mae arnon ni angen newid llywodraeth leol?........8**

**Dewisiadau ar gyfer llywodraeth leol........11**

**Ble bydd y cynghorau newydd?........20**

**Ffordd ymlaen clir a theg........26**

**Gwneud llywodraeth leol yn gryfach a rhoi cefnogaeth yn ystod y newidiadau........32**

**Cynghorau cymuned a chynghorau tref........44**

**Geiriau anodd........45**

# 1. Am beth mae hyn yn sôn?

Mae arnon ni angen **llywodraeth leol** gryfach yng Nghymru sy'n gallu gwneud mwy.



Cynghorau lleol, sy'n cael eu hadnabod hefyd fel awdurdodau lleol, yw eich **llywodraeth leol**.



Mae arnon ni angen mwy o **gynghorwyr** o'r ardal leol sy'n medru gweithio'n galetach i wneud eich bywyd yn well.




Rydych chi'n pleidleisio dros **gynghorwyr** i fod ar eich cyngor lleol. Maen nhw'n penderfynu beth yw anghenion eich ardal leol a sut i wario'r arian sydd gan y cyngor.



Y cynghorau rydyn ni'n siarad amdanyn nhw yma yw'r cynghorau sir a bwrdeistref mawr nid eich cynghorau tref neu gymuned.




Mae arnon ni i gyd angen siarad ynglŷn â sut y gallwn ni gael llywodraeth leol dda a chref.



Mae arnon ni angen cynghorau modern fydd yn gweithio gyda chynghorau a mudiadau eraill.




Mae arnon ni angen newid sut y mae ein cynghorau’n gweithio. Mae’r toriadau gan lywodraeth y DU yn meddwl nad oes gennym ni lawer o ddewisiadau.




Mae’r papur hwn yn dweud wrthych chi beth yw’r newidiadau posibl y gallwn ni wneud. Mae cwestiynau ar gyfer pob pennod mewn llyfryn ar wahân. Atebwch y rhain un ai ar eich pen eich hun neu gyda grŵp.

# 2. Pam mae arnon ni angen newid llywodraeth leol?



Ar hyn o bryd mae 22 o gynghorau yng Nghymru. Maen nhw i gyd yn gwneud yr un peth ond mewn ffyrdd gwahanol.




Mae cynghorau'n chwarae rôl bwysig iawn yn eu hardal leol. Maen nhw'n cyflenwi llawer o'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio ac sydd eu hangen arnoch.



Ond mae mwy o alw am wasanaethau a does ganddyn nhw ddim digon o arian i'w darparu nhw i gyd.




Mae pobl yn talu treth y cyngor am y gwasanaethau mae'r cyngor yn eu darparu. Weithiau mae'n rhaid i'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd weithio gyda llawer o awdurdodau ar yr un mater. Mae hyn yn cymryd amser ac arian.



Mae rhedeg 22 o gynghorau yn costio mwy.



Mae cymaint o gynghorau yn gallu ei gwneud hi'n anodd cael yr holl bobl dda sydd eu hangen. Mae'n rhaid iddyn nhw dalu am yr holl swyddfeydd sydd eu hangen.



Allwn ni ddim mynd ymlaen fel hyn. Mae arnon ni angen newid y ffordd y mae cynghorau’n gweithio.



Mae ceisio gwneud unrhyw newidiadau yn anodd iawn. Mae cymaint o bethau y mae angen meddwl amdanyn nhw. Mae’n rhaid i ni edrych ar y pethau sydd eu hangen arnon ni ar gyfer y dyfodol nid dim ond ar yr arian. Mae’n rhaid i ni edrych ar:



- y pethau y mae llywodraeth leol yn eu gwneud




- sut y mae pethau’n gweithio



- beth rydych chi am i lywodraeth leol ei wneud.




Edrychodd adroddiad ar beth y gallwn ni wneud. Dywedodd yr adroddiad mai’r ffordd orau ymlaen yw cael ardaloedd mwy ar gyfer llywodraeth leol.



Byddai hyn yn meddwl y byddai llai ohonyn nhw. Yna gallwch chi ddal ati i bleidleisio dros rywun o'ch ardal leol, arbed arian a chael llywodraeth leol gryfach.



Mae llawer o gynghorau yn cytuno bod angen newidiadau ond dydyn nhw ddim am i rywun ddweud wrthyn nhw am ymuno â chynghorau eraill na phwy i ymuno â nhw. Mae pob un ohonyn nhw am siarad â Llywodraeth Cymru am yr hyn sydd orau ar eu cyfer nhw.



Felly mae arnon ni angen newid ac rydyn ni am i chi fod yn rhan o benderfynu sut i newid..

## Cynghorau mwy a chynghorau cryfach



Rydyn ni wedi meddwl am lawer o wahanol newidiadau y gallwn ni wneud. Rydyn ni wedi siarad â chynghorau am y newidiadau posibl.

Erbyn hyn rydyn ni’n meddwl bod tri dewis y gallwn ni edrych arnyn nhw:



1. Cynghorau lleol yn dewis a ydyn nhw am ymuno â chynghorau eraill neu.




2. Symud yn araf, gyda chynghorau sy’n barod yn ymuno â’i gilydd yn gyntaf ac yna rhai eraill yn ymuno â’i gilydd yn nes ymlaen neu.



3. Bydd pawb yn ymuno â’i gilydd ar yr un pryd ac yn gwneud hynny’n fuan.




Byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y tri dewis hyn yn y ddogfen hon.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod ffiniau’r cynghorau’n gweithio’n well gyda ffiniau’r heddlu a ffiniau’r gwasanaethau iechyd. Bydd hyn yn gwneud cynllunio a gweithio gyda’i gilydd yn haws.




Bydd yn costio arian i ddechrau i gael cynghorau i ymuno â’i gilydd. Felly rydyn ni hefyd am edrych pa gefnogaeth sydd i helpu gyda hyn.

Rydyn ni hefyd yn edrych ar:



- Beth sydd ar lywodraeth leol angen medru ei wneud.



- Sut i wneud yn siŵr eich bod chi'n meddwl yn dda o gynghorwyr sy'n gwneud gwaith da.



- Sut i gael mwy o bobl i fod â diddordeb mewn bod yn gynghorwyr.

## 3. Dewisiadau ar gyfer llywodraeth leol

Pa ddewis bynnag y byddwn ni'n ei wneud, bydd arnon ni angen:



- Gwybod yn union pa ardaloedd y bydd y cynghorau newydd ynddyn nhw. Byddwn yn edrych ar hyn ym **Mhennod 4**.




- Bod â chynlluniau da ynghylch sut y bydd y newidiadau yn digwydd. Bydd yn rhaid i hyn wneud yn siŵr y bydd y gwasanaethau sy'n bod ar hyn o bryd yn mynd ymlaen heb unrhyw broblemau. Bydd yn rhaid i'r bobl sy'n gweithio i'r cynghorau wybod beth sy'n digwydd gyda'u swyddi a chymryd rhan. Rydyn ni'n edrych ar hyn ym **Mhennod 5**.



- Rhoi cefnogaeth a helpu i ddod â chynghorau at ei gilydd. Mae'n rhaid i'r cynghorau newydd mwy fedru gwneud mwy. Rydyn ni'n edrych ar hyn ym **Mhennod 6**.



- Cael ffyrdd o ddelio â chyngor sydd ddim yn gwneud ei waith yn iawn, fydd efallai'n meddwl y bydd yn rhaid ei ymuno â chynghorau eraill.

# Dewis 1 – cynghorau lleol yn dewis a ydyn nhw am ymuno




Gyda'r dewis hwn, mae grŵp o gynghorau lleol mewn ardal arbennig yn dweud eu bod am ymuno i ddod yn un cyngor newydd.




Bydd gan Lywodraeth Cymru restr o ddewisiadau ymuno y maen nhw wedi cytuno arni. Dim ond o'r rhestr hon y bydd cynghorau'n gallu dewis pwy i ymuno â nhw.

## Pethau da



Gall gynghorau lleol benderfynu beth maen nhw am wneud. Gallan nhw wneud newidiadau yn eu hamser eu hunain.



Gall y newidiadau fod yn esmwythach am fod cynghorau yn dewis drostyn nhw eu hunain. Ni fydd neb yn cael ei orfodi i wneud hyn os nad ydyn nhw am wneud.



Mewn amser bydd y cyngor mwy yn gallu gwneud mwy ac arbed arian.

Bydd y cyngor mwy yn gallu gwneud mwy fel rydyn ni'n dweud ym **Mhennod 6**.

# Pethau sydd ddim mor dda



Efallai y bydd rhai rhannau o Gymru yn newid yn gyflym ond efallai na fydd rhai cynghorau am newid.




Efallai y bydd y newidiadau'n llusgo ymlaen dros amser gan nad oes dyddiad diweddu. Ni fydd unrhyw beth yn sicr nac yn bendant.



Os na fydd newid, fydd dim arbedion, felly gall gwasanaethau ddioddef.




Efallai y bydd un cyngor yn penderfynu nad yw am ymuno â chynghorau eraill sydd wrth eu hymyl. Gallai hynny rwystro cynghorau eraill rhag ymuno â'i gilydd i wneud cyngor mwy ar gyfer yr ardal.

## Dewis 2 - symud yn araf, gyda chynghorau sy'n barod yn ymuno â'i gilydd yn gyntaf ac yna rhai eraill yn ymuno â'i gilydd yn nes ymlaen




Bydd pob cyngor lleol newydd mwy yn barod i ddechrau yn 2026. Gall rhai sy'n barod fynd yn gyflym a bod yn barod i ddechrau yn 2022.



### Pethau da

Bydd pawb yn gwybod pryd y bydd y newidiadau yn diweddu.



Mae cynghorau'n gwybod bod yn rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau ynghylch pryd i ymuno â'i gilydd.




Erbyn 2026 bydd pob cyngor yn gallu gwneud mwy ac arbed arian.



Bydd pawb yn gwybod y bydd y newidiadau yn digwydd ac yn medru cynllunio ar gyfer hynny.

## Pethau sydd ddim mor dda



Bydd newid yn digwydd ar wahanol adegau yng Nghymru. Ni fydd pob cyngor yn newid yr un pryd.




Efallai y bydd un cyngor yn penderfynu nad yw am ymuno â chynghorau eraill sydd wrth eu hymyl. Ond mae'n gwybod bod yn rhaid iddo erbyn 2026.



Bydd newid yn cymryd mwy o amser felly bydd yn rhaid i ni roi cefnogaeth dros fwy o amser. Gall hyn feddwl na allwn ni fynd ymlaen â phethau eraill sydd angen eu gwneud.

## Dewis 3 – bydd pawb yn ymuno â'i gilydd ar yr un pryd




Bydd y cynghorau newydd mwy yn dechrau yn 2022.

### Pethau da



Mae'n glir beth fydd yn digwydd a phryd y bydd yn digwydd i bawb.




Ni fydd y newidiadau yn mynd ymlaen yn rhy hir.




Byddwn yn gallu dechrau gwneud mwy a defnyddio ein harian yn well.




Bydd pob cyngor newydd yn dechrau ar yr un pryd.

## Pethau sydd ddim mor dda




Dim dewis i'r cynghorau presennol pa mor gyflym y bydd y newidiadau'n digwydd.




Ni fydd rhai lleoedd yn hoffi pobl yn dweud wrthyn nhw beth i'w wneud. Bydd hyn yn gwneud y newidiadau'n fwy anodd.



Mewn mannau ble bydd y newidiadau'n anodd, efallai y bydd gwasanaethau'n cael eu heffeithio.


## Faint fydd hyn i gyd yn ei gostio?




Fe gawson ni adroddiad i edrych ar y costau.




Bydd yn costio arian i wneud unrhyw un o'r newidiadau hyn. Ond bydd gwneud y newidiadau'n meddwl y byddwn ni'n arbed arian. Mewn deng mlynedd byddwn ni'n arbed llawer mwy nag yr ydyn ni'n ei wario ar y newidiadau.



**Nawr mae gennym ni 22 cyngor lleol. Rydyn ni'n gobeithio cael deg.**

Byddwn yn arbed arian trwy:



- gael llai o swyddfeydd mawr



- cael llai o brif reolwyr



- cael llai o gynghorwyr trwy Gymru gyfan



- cael popeth yn fwy syml.




Bydd cael llai o gynghorau yn meddwl:

- cy gall cynghorau wario mwy ar gyflenwi gwasanaethau



- y gall cynghorau newid y ffordd y maen nhw'n gwneud  pethau



- y byddwn yn gwneud gweithio gyda gwasanaethau eraill yn haws



- y gall cynghorau gael y bobl sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer pob swydd yn y cyngor.



Fe fyddwn yn cyfrif faint y bydd y gwahanol ddewisiadau yn gostio. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu pa ddewis fyddai orau.

**Ewch i dudalen 5 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch  gwestiwn 1 i gyd.**

# 4. Ble bydd y cynghorau newydd?



Mae'n bwysig cael syniad pa ardaloedd y bydd y cynghorau newydd mwy yn gofalu amdanyn nhw. Bydd hyn:



- yn gwneud yn siŵr y bydd gan y cynghorau newydd ffiniau fydd yn cyd-fynd yn well â ffiniau'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd




- yn ei gwneud hi'n haws i gynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod



- yn rhwystro pawb rhag gwastraffu amser yn siarad am ymuno â'i gilydd.



Fe ofynnon ni i chi am hyn o'r blaen. Fe wrandawon ni ar beth roedd pawb yn ei ddweud bryn hynny. Roedd rhai syniadau da y gwnaethon ni eu defnyddio.



Mae llawer o bethau y bydd yn rhaid i ni feddwl amdanyn nhw pan fydd cynghorau'n ymuno â'i gilydd:



- Staff – eu tâl, eu pensiynau a'r rheolau sydd ganddyn nhw ar gyfer eu gwaith.



- Sut y mae'r gwahanol gynghorau'n gweithio gan gynnwys eu gwahanol gyfrifiaduron.



- Newid sut y mae gwasanaethau'n gweithio.



- Dod o hyd i staff newydd a'u cadw.

Rydyn ni wedi meddwl llawer ynghylch sut y gallwn ni newid yn gynghorau newydd mwy:




- gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n rhy fawr i ddal ati i'ch cynnwys chi




- digon mawr i arbed arian a bod yn gryfach.


Felly dyma sut rydyn ni'n gweld y cynghorau newydd mwy ond mae arnon ni eisiau gwrando ar syniadau eraill hefyd:




1. Sir Fôn a Gwynedd gyda'i gilydd.




2. Conwy a Sir Ddinbych gyda'i gilydd.




3. Sir y Fflint a Wrecsam gyda'i gilydd.




4. Powys yn aros ar ei phen ei hun.




5. Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin gyda'i gilydd.




6. Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot gyda'i gilydd.




7. Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful gyda'i gilydd.



8. Bro Morgannwg a Chaerdydd gyda'i gilydd.



9. Casnewydd a Chaerffili gyda'i gilydd.



10. Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy gyda'i gilydd.



Mae’r grwpiau hyn yn gweithio’n well gyda ffiniau’r gwasanaethau iechyd ar wahân i Ben-y-bont ar Ogwr. Efallai y bydd newidiadau yn y dyfodol i ffiniau gwasanaethau iechyd Pen-y-bont ar Ogwr.

## Gweithio gyda’i gilydd



Mae cynghorau’n gweithio gyda’i gilydd mewn gwahanol rannau o Gymru.



Mae peth gwaith yn digwydd yn barod ar draws rhai rhanbarthau. Rydyn ni’n falch o hyn ac am i hyn fynd ymlaen.



Rydyn ni’n meddwl y bydd yn haws gweithio ar draws rhanbarth pan fydd llai o gynghorau.



Ni fydd cymaint o’r un cyfarfodydd ar gyfer heddlu a gwasanaethau iechyd. Gallan nhw weithio gyda’i gilydd mewn llai o amser a chyda llai o gostau.

# Y cynghorau newydd



Does dim maint perffaith ar gyfer y cynghorau newydd.




Mae gan ardaloedd gwledig lai o bobl na threfi a dinasoedd. Gall fod yn anodd rhoi gwasanaethau da pan fydd pobl yn byw yn bell oddi wrth ei gilydd.




Bydd gan y cynghorau newydd tua'r un maint o blant yn yr ysgol.



Mae gan drefi a dinasoedd fwy o oedolion dan 65. Mae gan ardaloedd gwledig fwy o bobl dros 65.



Mae Powys yn anarferol. Mae ganddi lai o bobl nag unrhyw le arall. Ond hon yw'r ardal fwyaf. Fe gadwon ni Bowys fel un cyngor ond fe wnawn ni wrando ar unrhyw syniadau eraill.

**Ewch i dudalen 7 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch gwestiwn 2 i gyd.**

# 5. Ffordd glir a theg ymlaen




Mae'n bwysig bod y newid i'r cynghorau newydd yn cael ei gynllunio'n dda.



Bydd gennym ni grŵp **trawsnewid** ar gyfer pob cyngor newydd. Bydd o leiaf bum cynghorwr o bob cyngor bach yn y grŵp hwn.

**Trawsnewid** yw newid o un ffordd o wneud pethau i ffordd arall.




Mae'n rhaid i'r grŵp trawsnewid wneud yn siŵr bod y newidiadau'n mynd yn hawdd ac yn dda. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod arian sy'n cael ei wario ar y newidiadau yn cael ei wario mewn ffordd dda.




Bydd gennym ni ddeddf newydd yn nes ymlaen y flwyddyn hon ar lywodraeth leol.




Bydd arnon ni angen gwybod pa ddyddiadau y bydd popeth yn newid ar gyfer y ddeddf newydd.



## Ar gyfer dewis 1

Ydyn ni'n rhoi dyddiad newid i gynghorau? Mae hyn yn bwysig achos bydd arnon ni angen etholiadau ar gyfer y cyngor newydd flwyddyn cyn iddo ddechrau.



Mae ar y cynghorwyr ar gyfer y cyngor newydd angen trefnu'r arian a sut i weithio.

## Ar gyfer dewis 2




Bydd etholiadau cynghorau lleol yn 2021. Felly bydd ar gynghorau sydd am newid gyntaf angen dweud wrthyn ni cyn yr etholiadau hynny.




Gall Cynghorwyr ar gyfer y cyngor newydd mwy gael eu hethol yn etholiadau llywodraeth leol 2021. Bydd y cynghorwyr hynny yn dechrau penderfynu sut y byddan nhw'n gweithio yn y cyngor newydd.




Bydd etholiadau'r llywodraeth leol ar ôl hynny yn 2025. Felly bydd y cynghorwyr newydd ar gyfer y gweddill o'r cynghorau'n cael eu hethol yn 2025.



Bydd y grwpiau trawsnewid ar gyfer y ddau set o gynghorau'n cael digon o amser i weithio. Byddwn yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael digon o amser..

## Ar gyfer dewis 3




Bydd yr holl etholiadau ar gyfer y cynghorau newydd yn 2021. Bydd y cynghorwyr yn dechrau penderfynu sut y byddan nhw'n gweithio yn y cyngor newydd.




Byddai'r cynghorau newydd yn dechrau 1 Ebrill 2022.




Byddai'r grŵp trawsnewid yn dechrau y flwyddyn hon yn 2018.




Mae'n well gennym ni i'r dyddiad etholiad ym Mehefin 2021 fod yn etholiadau cyntaf ar gyfer y cyngorau newydd. Fe fyddwn yn edrych ar ddyddiadau eraill os oes rhesymau da.


Bydd yn rhaid i’r cynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd gael pethau’n barod cyn i’r cynghorau newydd ddecrhau. Bydd arnyn nhw angen:




- penderfynu sut mae’r arian yn cael ei wario




- cael prif reolwyr ar gyfer y cyngor newydd




- dechrau penderfynu ar reolau ar gyfer gweithio.




O 2025 bydd cynghorwyr ar gyfer yr holl gynghorau newydd am bum mlynedd.




Ni fydd Powys yn ymuno â neb. Bydd etholiadau ym Mhowys yn digwydd ar yr un amser â phob man arall.

**Ewch i dudalen 10 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch  gwestiynau 3, 4 a 5 i gyd.**

# Wardiau ar gyfer etholiadau



Ardaloedd yw **wardiau** sy'n cael eu rhannu'n rannau llai ar gyfer pleidleisio. Mae un neu fwy o gynghorwyr yn cael eu hethol ar gyfer pob ward. Mae tua pum mil o bobl ym mhob ward.




Gan y bydd gennym ni gynghorau newydd mwy bydd arnon ni angen penderfynu ar wardiau newydd hefyd. Bydd grŵp arbennig yn gweithio ar hyn.



Bydd arnyn nhw angen amser i edrych ar bopeth yn iawn.




Rydyn ni'n gobeithio y byddan nhw'n gadael i ni wybod erbyn Awst 2020 beth yw'r wardiau. Bydd hyn yn rhoi amser i'r pleidiau gwleidyddol baratoi.

**Ewch i dudalen 12 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch gwestiwn 6 i gyd.**

# Cyllidebau




Bydd yn rhaid i ni wneud rhai newidiadau cyfreithiol i'r ffordd y bydd y cynghorau newydd yn cael yr arian sydd ei angen arnyn nhw a beth y byddan nhw'n ei wario arno.



Bydd grwpiau trawsnewid a chynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd yn gweithio gyda'i gilydd ar y cyllidebau. Fe fyddan nhw'n cynllunio am ychydig flynyddoedd.




Fe fyddan nhw'n penderfynu faint o dreth y cyngor y byddwch chi'n ei dalu. Fe fyddan nhw'n edrych ar yr holl wybodaeth sydd yno cyn penderfynu faint fydd y dreth. Bydd yn rhaid iddyn nhw feddwl yn ofalus hefyd sut y bydd y dreth yn effeithio arnoch chi.



Rydyn ni wedi edrych ar dreth y cyngor ar draws Cymru nawr. Mae pobl yn yr un math o dai yn talu bron yr un faint o dreth y cyngor. Mae hyn yn meddwl na fydd newidiadau mawr yn nhreth y cyngor i chi orfod ymdopi â nhw.




Mewn rhai mannau mae'r bwlch ychydig yn fwy ac efallai y bydd yn rhaid i ni wneud pethau i helpu gyda hyn.

# 6. Gwneud llywodraeth leol yn gryfach a rhoi cefnogaeth drwy'r newidiadau



Gyda'r newidiadau rydyn ni am i llywodraeth leol fod yn gryfach a medru gwneud mwy.

## Pwysigrwydd cynghorwyr



Mae cynghorwyr yn gweithio'n galed i wella bywydau pobl yn eu cymuned.




Mae cynghorwr yn rhywun sy'n cael ei ethol gan bobl leol i'w cynrychioli ar y cyngor. Mae gan bob cyngor rhwng 30 a 75 o gynghorwyr, gan ddibynnu faint o bobl sy'n byw ym mhob ardal.



Mae gan gynghorwyr lawer o bwysau a straen i ddelio ag o gyda:



- llawer o benderfyniadau anodd i'w gwneud gyda thoriadau i wasanaethau



- mwy o waith nag erioed



- delio â sylwadau ar y rhyngrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a phapurau newydd.



Mae’r pwysau hyn a’r arian sy’n cael ei dalu iddyn nhw yn meddwl nad yw llawer o bobl am fod yn gynghorwyr.



Mae arnon ni eisiau i’n cynghorwyr fod yr un fath â’r holl bobl yng Nghymru. Mae arnon ni angen cynghorwyr gyda:



- addysg **amrywiaethol**, teuluoedd a bywydau

**Amrywiaethol** yw gwahanol bobl gyda gwahanol ffyrdd o fyw a gwahanol ddiwylliant.



- gwahanol ddiddordebau a meddyliau



- gwahanol syniadau am yr hyn sy’n bwysig.



Rydyn ni’n meddwl bod yr hyn maen nhw’n wneud angen dealltwriaeth gan bawb. Mae’n rhaid i ni dalu’n dda iddyn nhw am waith wedi’i wneud yn dda a’u parchu am eu gwaith.



Mae ar gynghorwyr angen cefnogaeth a gwybodaeth dda i wneud eu gwaith yn dda.



Gall dechrau cynghorau newydd roi cyfle i ni feddwl mwy am y gefnogaeth sydd ar gynghorwyr ei hangen.



Rydyn ni’n gwybod ei bod hi weithiau’n anodd gweld a deall beth mae ein gwleidyddion yn ei wneud.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd y newidiadau'n dechrau newid hyn. Mae arnon ni i gyd angen siarad ynghylch sut i gael cynghorau i adael i ni wirio'r pethau maen nhw'n eu gwneud a sut y gallwn ni i gyd fod yn rhan o'u gwaith.

**Ewch i dudalen 13 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch  gwestiwn 7 i gyd.**

## Mwy o bŵer

Mae'n rhaid i ni fod yn glir ynghylch beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud a beth y mae cynghorau'n ei wneud.




Bydd cynghorau'n medru gwneud mwy o bethau i ateb anghenion eu hardaloedd lleol. Mae hyn yn gallu bod yn ddefnyddiol pan fyddan nhw'n gweithio ar bethau fel:



- cartrefu



- cludiant



- hyfforddiant



- yr **amgylchedd**.

Yr **amgylchedd** yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw arnyn nhw ac ynddyn nhw. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

**Ewch i dudalen 14 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch gwestiwn 8 i gyd.**

## Newid gwasanaethau



Bydd cael mwy o gynghorau gyda mwy o bwerau yn meddwl y gallan nhw edrych sut mae'r gwasanaethau'n gweithio. Byddan nhw'n gallu newid gwasanaethau i fod yn iawn ar gyfer y lle rydych chi'n byw.

Gall cynghorau ddefnyddio mwy o **dechnoleg** i wella'u gwasanaethau.



Mae **technoleg** yn meddwl pethau fel y rhyngrwyd, ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen.




Fel arfer, mwya'n byd rydych chi'n ei brynu lleia'n byd mae'n ei gostio. Felly fe fyddan nhw'n medru prynu mwy am yr arian sydd ganddyn nhw.



Bydd yn bosibl i'r cynghorau newydd ymuno â'i gilydd i brynu pethau. Felly fe ddylen nhw fedru cael pethau'n hyd yn oed rhatach.

**Ewch i dudalen 15 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch  gwestiwn 9 i gyd.**

## Cael y gorau allan o bobl



Y staff yw'r peth gorau ynglŷn â chynghorau. Mae ganddyn nhw lawer o fedrau ac mae'n rhaid i ni eu defnyddio'n dda.



Mae cynghorau'n cyflogi llawer o bobl ar draws Cymru. Pan fydd swyddi'n cael eu colli mae'n cael effaith fawr yn y cymunedau.



Bydd newid mawr i staff a gall hyn fod yn anodd.




Mae llawer o bethau ynglŷn â chynghorau sydd yr un fath dros Gymru ond mae llawer o bethau sy'n wahanol hefyd. Mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer y problemau y gall staff eu cael.



Bydd cyfleoedd i bobl ddysgu medrau newydd a dod o hyd i well ffyrdd o wneud pethau.



Mae'n rhaid i'r prif reolwyr gefnogi eu staff a bod yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau.

## Y gefnogaeth rydyn ni'n ei chynnig i gynghorau



Rydyn ni wedi edrych beth y gall yr holl newidiadau feddwl. Bydd angen datrys y pethau anodd. Fydd hyn ddim yn hawdd a bydd angen gwneud llawer o waith.



Pan fyddwn ni'n gwybod pa ddewis i'w wneud, byddwn ni'n dechrau rhoi cefnogaeth ar gyfer y newidiadau.



Bydd hyn yn cynnwys:

- hyfforddi staff



- helpu i ymuno gwasanaethau â’i gilydd



- helpu gyda gwaith technolegol.




Bydd arnon ni angen cynllunio beth fydd ei angen a phryd y bydd angen hyn. Bydd hyn yn ei gwneud hi’n haws gwneud pethau gam wrth gam.

## Cefnogi staff



Rydyn ni’n gwybod bod cefnogi’r holl reolwyr i wneud cyngor newydd gyda gwasanaethau newydd yn bwysig iawn. Rydyn ni’n gwybod bod rheolwyr sydd â medrau a dealltwriaeth i wneud y gwaith hwn yn dda.



Bydd toriadau, felly efallai na fydd ganddyn nhw’r holl staff sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y newidiadau hyn.




Fe fyddwn ni’n ceisio cefnogi’r cynghorau newydd i lenwi’r angen hwn am staff.

## Gofalu am bobl



Gall yr yn math o staff gael gwahanol dâl mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr bod staff yn cael eu trin yn deg. Rydyn ni’n edrych ar syniadau ar gyfer sut i gael ffordd deg o symud ymlaen.



Bydd undebau llafur yn rhan o feddwl beth yw’r ffordd orau o wneud y newidiadau hyn.

## Newid y ffordd rydyn ni’n gwneud pethau

Mae gennym ni ffordd newydd i gynghorau newid eu gwasanaethau. Mae hon yn cael ei galw’n **Fframwaith Cenedlaethau’r Dyfodol**. Rydyn ni’n meddwl y bydd yn helpu gwasanaethau:




- fod yn gryf




- para’n dda




- cefnogi pobl i fod yn iach ac yn hapus.



Mae ar wasanaethau angen cefnogi pobl i fyw yn annibynnol cyn hired â phosibl. Efallai y bydd arnyn nhw angen newid i wneud hyn yn dda.



Gallwn ni ddefnyddio technoleg i'n helpu i ddeall sut y gall gwasanaethau wella.




Fe fyddwn ni'n gweld allwn ni gael un system ar gyfer y pethau mae pob cyngor yn ei wneud yn yr un ffordd. Bydd cael un system yn ei gwneud hi'n haws i:



- wasanaethau rannu gwybodaeth



- cynghorau rannu gwasanaethau nad yw'r cyhoedd yn eu defnyddio, fel talu staff.




Bydd hyn yn arbed arian ac yn meddwl bod gan staff amser i wneud pethau eraill.



Mae hon yn adeg i edrych beth sy'n gallu newid a bod yn well. Nid mynd ymlaen yn y ffordd mae pethau wedi digwydd erioed.



Mae ar gynghorau angen gwybod pa adeiladau a thir y maen nhw'n berchen arnyn nhw. Yna gallan nhw edrych sut y maen nhw'n eu defnyddio a sut i'w defnyddio nhw'n well.



Fe wnaethon ni roi arian y flwyddyn hon i gynghorau gael dechrau hyn. Efallai y byddwn ni'n rhoi mwy o gefnogaeth yn y dyfodol i feddwl am hyn i gyd.

**Ewch i dudalen 15 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch gwestiwn 10 i gyd.**


## Yr iaith Gymraeg



Edrychodd grŵp ar yr iaith Gymraeg o fewn llywodraeth leol.




Dywedson nhw bod arnon ni angen mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Rydyn ni'n cytuno â nhw.



Rydyn ni'n meddwl y bydd newid llywodraeth leol yn rhoi mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio Cymraeg mewn gwasanaethau maen nhw'n ei gael gan y cyngor.

**Ewch i dudalen 17 yn y llyfryn cwestiynau ac atebwch gwestiynau 11 a 12 i gyd.**

# 7. Cynghorau cymuned a chyngorau tref



Mae cynghorau cymuned yn rhan bwysig o llywodraeth leol. Yn aml maen nhw'n agos iawn at y cymunedau y maen nhw'n gweithio ar eu rhan. Maen nhw'n gweld sut y mae gwasanaethau yn effeithio ar bobl.

Nid yw cynghorau cymuned i gyd yr un fath. Mae eu gwaith a'u cyllidebau'n wahanol.




Rydyn ni'n edrych sut i'w gwneud yn gryfach. Byddwn yn cael adroddiad yn 2018.



Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ateb cymaint o gwestiynau ag y gallwch yn y llyfryn ar wahân.



**Diolch.**

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd yw'r lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr a'r aer a phopeth sy'n byw arnyn nhw ac ynddyn nhw. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Amrywiaethol

Amrywiaethol yw gwahanol bobl gyda gwahanol ffyrdd o fyw a gwahanol ddiwylliant.

## Cynghorwyr

Rydych chi'n pleidleisio dros gynghorwyr i fod ar eich cyngor lleol. Maen nhw'n penderfynu beth yw anghenion eich ardal leol a sut i wario'r arian sydd gan y cyngor.

## Llywodraeth leol

Cynghorau lleol yw eich llywodraeth leol.

## Technoleg

Mae technoleg yn meddwl pethau fel y rhyngrwyd, ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen.

## Trawsnewid

Trawsnewid yw newid o un ffordd o wneud pethau i ffordd arall.

## Wardiau

Ardaloedd yw wardiau sy'n cael eu rhannu'n rannau llai ar gyfer pleidleisio. Mae un neu fwy o gynghorwyr yn cael eu hethol ar gyfer pob ward. Mae tua phum mil o bobl ym mhob ward.